Ministry of Justice

# Gosod y Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol

## Crynodeb Gweithredol a Chwestiynau Cais am Dystiolaeth

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn dechrau ar 16 Ionawr 2024

Ministry of Justice

# Gosod y Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol

Crynodeb Gweithredol a Chwestiynau Cais am Dystiolaeth

**Cais am Dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Ynglŷn â’r Cais am Dystiolaeth hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Pawb sydd â diddordeb mewn hawliadau anafiadau personol |
| **Hyd:** | O 16/01/24 i 09/04/24 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | **Civil Justice & Law Policy**<br>Post point 5.23<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 09 Ebrill 2024 at:<br><br>**Civil Justice & Law Policy**<br>Post point 5.23<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>Rhif Ffôn: 020 3334 3157<br><br>E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Bydd crynodeb o'r ymatebion i’r Cais hwn am Dystiolaeth yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys


**Rhagair** **2**

**Crynodeb gweithredol** **3**

**Cyflwyniad** **4**

**Ystyriaethau cydraddoldeb** **6**

Cefndir 6

Gwahaniaethu Uniongyrchol 6

Gwahaniaethu Anuniongyrchol 7

**Holiadur** **9**

**Atodiad 1: Rhestr o Ymgyngoreion** **15**

**Amdanoch chi** **18**

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **19**

**Asesiad Effaith** **21**

**Y Gymraeg** **22**

**Egwyddorion Cais am Dystiolaeth** **23**

# Rhagair



Mae pobl sy'n dioddef anafiadau sy'n newid eu bywydau yn dibynnu ar eu hiawndal i'w cefnogi drwy'r newidiadau mawr i'w bywyd.


Mae'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol yn fecanwaith pwysig ar gyfer cyflawni'r egwyddor cyfraith gyffredin hirsefydlog y bydd rhywun, pan gaiff ei anafu ar gam, yn derbyn iawndal llawn sy'n diwallu ei anghenion nawr ac yn y dyfodol, yn cynnwys costau gofal ac enillion a gollir yn y dyfodol.

Yr egwyddor sylfaenol ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yw y dylai iawndal, pan delir ef, cyn belled ag y bo modd roi'r hawlydd yn yr un sefyllfa ag y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r ddamwain wedi digwydd – dim mwy a dim llai.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'r egwyddor o iawndal llawn a'r nod y dylai pobl sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol gael iawndal sy'n diwallu eu hanghenion nawr ac yn y dyfodol. Dyna pam y rhoddwyd diwygiadau ar waith drwy Ran 2 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018 i greu ffordd decach a mwy cywir o bennu'r gyfradd ddisgownt anaf personol, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau.

Bydd yr ail adolygiad o'r gyfradd ddisgownt anaf personol, yn defnyddio'r broses ddiwygiedig a gyflwynwyd yn Neddf Atebolrwydd Sifil 2018, yn cael ei gynnal yn 2024. Dyma fydd yr adolygiad cyntaf o'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol lle bydd y Panel Arbenigol annibynnol, sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau yn Neddf Atebolrwydd Sifil 2018, yn rhoi cyngor i'r Arglwydd Ganghellor cyn i unrhyw gyfradd newydd gael ei phennu.

Bwriad y Cais hwn am Dystiolaeth yw gofyn am fewnbwn arbenigol gan randdeiliaid i gefnogi gwaith y Panel Arbenigol hwn. Mae tystiolaeth o ansawdd da yn hanfodol i'r broses hon ac rwy'n annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn sydd â mynediad at dystiolaeth a data priodol i ymgysylltu ac ymateb i'r Cais pwysig hwn am Dystiolaeth.



**Yr Arglwydd Christopher Bellamy CB**
**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

# Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Deddf Atebolrwydd Sifil 2018 newidiadau pwysig i Ddeddf Iawndal 1996 sy'n rhagnodi'r ffordd y mae'r Arglwydd Ganghellor yn pennu'r gyfradd ddisgownt anaf personol. Bwriad y newidiadau hyn yw sicrhau bod y Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol yn adlewyrchu'r enillion y gellid disgwyl yn rhesymol, ym marn yr Arglwydd Ganghellor, i hawlydd anaf personol eu derbyn drwy fuddsoddi dyfarniad cyfandaliad o iawndal am golled ariannol yn y dyfodol mewn portffolio risg isel amrywiol.

Roedd Deddf Atebolrwydd Sifil 2018 yn nodi y dylid ymgynghori'n ffurfiol ag Actiwari'r Llywodraeth a Thrysorlys EM ar gyfer yr adolygiad cyntaf o dan y fethodoleg newydd. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2019 a chafodd ei ragflaenu gan Gais am Dystiolaeth (Rhagfyr 2018 - Ionawr 2019). Arweiniodd yr adolygiad hwn at gynyddu'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol o -0.75 y cant (cyfradd wedi'i gosod o'i chymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu) i -0.25 y cant (cyfradd wedi'i gosod o'i chymharu â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr).

Ar ben hynny, mae'r Ddeddf Atebolrwydd Sifil yn mynnu bod yr Arglwydd Ganghellor yn cynnal adolygiadau o'r gyfradd yn y dyfodol ar ôl ymgynghori â Thrysorlys EM a 'phanel arbenigol' i'w gadeirio gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae Panel Arbenigol y Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol yn cynnwys aelodau sydd â phrofiad o'r canlynol:

- fel actiwari;
- rheoli buddsoddiadau;
- fel economegydd; ac
- mewn materion defnyddwyr sy'n ymwneud â buddsoddiadau

Rhaid i'r ail adolygiad ddechrau erbyn 15 Gorffennaf 2024, ac mae'n bwysig bod gan yr Arglwydd Ganghellor a'r ymgyngoreion statudol y dystiolaeth orau sydd ar gael yn ymwneud â'r holl faterion perthnasol i seilio eu casgliadau arnynt. Felly, mae'r papur hwn wedi cael ei gyhoeddi i gasglu tystiolaeth a data cyn yr ail adolygiad o'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol o dan y broses a gyflwynwyd drwy Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**
**16 Ionawr 2024**

# Cyflwyniad

1. Bwriad y Cais hwn am Dystiolaeth yw helpu'r 'panel arbenigol' yn y broses o gael y data a'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth eang o bynciau perthnasol. Mae'n gwahodd ymatebwyr i ddarparu tystiolaeth a fydd yn helpu'r ymgyngoreion statudol i gael gwell dealltwriaeth o'r canlynol:

    - Y bydysawd hawlwyr, yr ydym yn ei ddiffinio fel sbectrwm eang o nodweddion sy'n berthnasol i hawlwyr a anafwyd a'r iawndal a ddyfernir iddynt, gan gynnwys:
        - Maint a hyd dyfarniadau iawndal;
        - Gwahanol benawdau colledion a chodiadau chwyddiant a gymhwysir i'r rhain;
        - Siâp yr iawndal; a
        - Profiad o farwolaethau.
    - Profiad buddsoddi hawlwyr, yn benodol:
        - Y strategaeth fuddsoddi nodweddiadol a ddefnyddir gan hawlwyr a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar amrywiadau i hyn ar gyfer gwahanol grwpiau o hawlwyr; a
        - Sut mae'r strategaeth fuddsoddi hon yn newid, neu sut y disgwylir iddi newid, dros orwelion amser hawlwyr a sut y maent yn rheoli risg dros amser.
    - Treuliau a threthi sy'n daladwy gan hawlwyr ar eu buddsoddiadau;
    - Newidiadau ers cais 2018 am dystiolaeth, yn cynnwys sut maent yn effeithio ar y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd wrth bennu'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol yn 2019 ac a yw'r rhagdybiaethau hyn yn dal yn rhesymol;
    - Effaith ac ymarferoldeb mabwysiadu Cyfradd Ddisgownt Anaf Personol ddeuol/luosog a sbardunir gan hyd y dyfarniad, neu gan benawdau colledion; a
    - Y cyd-destun o gwmpas dyfarnu cyfandaliadau, gan gynnwys y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddyfarnu cyfandaliad yn hytrach na Gorchymyn Taliad Cyfnodol.

2. Bydd yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynir yn cael eu hystyried a'u defnyddio yng ngwaith y Panel Arbenigol y bydd yr Arglwydd Ganghellor yn ymgynghori ag ef fel rhan o'r adolygiad o'r gyfradd ddisgownt. Hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb yn y cyngor a roddir i'r Arglwydd Ganghellor gan y ddau ymgynghorai

statudol, bydd tystiolaeth a data a gesglir drwy’r ymarfer hwn hefyd yn cael eu rhannu â swyddogion Trysorlys EM.

3. Gofynnir i ymatebwyr ystyried y materion a godir yn y ddogfen hon, ateb y cwestiynau a chyflwyno unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall sydd ar gael i gefnogi eu safbwynt. Rydym yn croesawu sylwadau gan bawb ond rydym yn derbyn y gallai fod gan rai rhanddeiliaid feysydd gwybodaeth arbenigol ac y byddant am ganolbwyntio ar ddarparu tystiolaeth yn y meysydd hyn.

4. Bydd y Cais am Dystiolaeth yn para 12 wythnos a bydd yn cau ar XX Ebrill 2024.

5. Nid oes Asesiad Effaith wedi’i baratoi ar gyfer y papur hwn, gan mai ei bwrpas yw casglu tystiolaeth yn hytrach na chyflwyno cynigion polisi i ymgynghori arnynt. Cynhelir asesiad effaith llawn pan fydd yr adolygiad wedi dod i ben i gefnogi’r Arglwydd Ganghellor i benderfynu ar newidiadau i’r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol.

6. Mae copïau o’r papur Cais am Dystiolaeth yn cael eu hanfon at y sefydliadau a restrir yn **Atodiad 1**. Nid yw’r rhestr hon yn gyfyngol nac yn hollgynhwysol. Croesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd â safbwyntiau ar unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef yn y papur hwn.

7. Bydd crynodeb gweithredol a set o gwestiynau Cymraeg ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/.

# Ystyriaethau cydraddoldeb

## Cefndir

8. O dan Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (“y Ddeddf”) mae’n rhaid i Weinidogion a’r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi ‘sylw dyledus’ i’r angen i:

   - ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd gan y Ddeddf;
   - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy’n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath); a
   - meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy’n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath).

9. Wrth gyflawni’r ddyletswydd hon, rhaid i Weinidogion a’r Adran roi “sylw dyledus” i’r naw “nodwedd warchodedig” a nodir yn y Ddeddf, sef: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

10. Mae’r Llywodraeth wedi gofyn mewn Ceisiadau cyhoeddus am Dystiolaeth yn 2011, 2013 a 2017 am wybodaeth am yr effaith ar gydraddoldeb wrth osod y gyfradd ddisgownt, a chyhoeddwyd Datganiad Cydraddoldeb yn 2018 pan gyflwynwyd y Bil Atebolrwydd Sifil ar y pryd yn y Senedd, ac yn 2019 i gyd-fynd â gosod cyfradd newydd. Gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad i’r Pwyllgor Cyfiawnder ym mis Mawrth 2018 y byddai’n parhau i adolygu’r Datganiad.

11. Llywiwyd Adolygiad 2019 yn rhannol gan Gais am Dystiolaeth a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018 - Ionawr 2019. Roedd y Cais hwnnw am Dystiolaeth yn gofyn am farn benodol (cwestiwn 14) ar sut roedd gosod y gyfradd yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Gofynnwyd am farn hefyd ynghylch sut yr oedd ystyriaethau cydraddoldeb yn effeithio ar ymddygiad buddsoddi hawlwyr.

## Gwahaniaethu Uniongyrchol

12. Mae’r egwyddorion ar gyfer pennu’r gyfradd ddisgownt yr un mor berthnasol i bob hawlydd a diffynnydd. Ein hasesiad felly yw nad yw’r cynigion yn gwahaniaethu’n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Gwahaniaethu Anuniongyrchol

13. Mae'r papur Cais am Dystiolaeth hwn wedi'i fwriadu i gasglu tystiolaeth i oleuo gwaith y Panel Arbenigol yn ei drafodaethau fel rhan o'r cyngor i'r Arglwydd Ganghellor.

14. Yn y Datganiad Cydraddoldeb a gyhoeddwyd ar gyfer gosod cyfraddau Adolygiad Gorffennaf 2019, y casgliad y daethpwyd iddo oedd nad oedd y Llywodraeth o'r farn bod y diwygiadau'n golygu gwahaniaethu anuniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf. Roedd y newidiadau a ddeilliodd o osod y gyfradd yn annhebygol o arwain at roi unrhyw un â nodwedd warchodedig dan anfantais benodol o'i gymharu â rhywun nad yw'n rhannu'r nodwedd warchodedig.

15. Fodd bynnag, nodwyd nad yw'r Llywodraeth yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am hawlwyr anafiadau personol mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Hefyd, gan mai ychydig o wybodaeth a ddarparwyd o ganlyniad i'r Cais cynharach am Dystiolaeth a fyddai'n galluogi cymharu rhwng gwahanol grwpiau gwarchodedig, mae ein dealltwriaeth o effeithiau posibl y cynigion ar gydraddoldeb yn gyfyngedig.

16. Rhaid adolygu'r gyfradd o leiaf bob pum mlynedd ar ôl yr Adolygiad cyntaf yn unol â'r newidiadau deddfwriaethol i'r fethodoleg gosod cyfraddau. Bydd hyn yn cynnwys gofyn am dystiolaeth ychwanegol a chynnwys asesiad newydd ar gyfer pob adolygiad o effaith wirioneddol neu bosibl gosod y gyfradd ar hawlwyr â nodweddion gwarchodedig ac ystyriaethau cydraddoldeb eraill.

17. Ar hyn o bryd, mae un gyfradd ar gyfer pob hawlydd, ac eithrio y gall y llys wyro oddi wrth y gyfradd honno pan gaiff ei berswadio bod cyfradd arall yn fwy priodol. Yn ymarferol, mae'n ymddangos nad yw'r llys erioed wedi gwneud hynny.

18. Ar gyfartaledd, gall hawlwyr sydd â disgwyliad oes hirach fod yn iau na hawlwyr sydd â disgwyliad oes byrrach. Efallai, felly, fod hawlwyr hŷn yn fwy agored i amrywiadau tymor byr mewn enillion buddsoddi (gyda llai o amser i adennill unrhyw golledion), tra gallai hawlwyr iau fod yn fwy agored i ansicrwydd ynghylch eu hanghenion gofal yn y dyfodol.

19. Mae'n bosibl y bydd hawlwyr sydd â chredoau crefyddol neu gredoau eraill penodol yn cael eu cyfyngu o ran y math o fuddsoddiadau y gallant eu gwneud, ac er nad oes ymchwil academaidd bendant, y disgwyliad rhesymegol fyddai y gallai lleihau'r opsiynau buddsoddi effeithio ar eu hadenillion i ryw raddau.

20. Fodd bynnag, pwrpas y ddeddfwriaeth yw galluogi'r Arglwydd Ganghellor i bennu cyfradd neu set o gyfraddau i adlewyrchu'r egwyddor iawndal 100%. Rhaid cadw hyn mewn cof ac nid oes gan yr Arglwydd Ganghellor fawr o le i wneud darpariaeth i warchod buddiannau grwpiau penodol.

21. Mae’n annhebygol y byddai’n briodol, er enghraifft, addasu’r gyfradd ddisgownt os yw defnyddio’r profion cyfreithiol yn briodol yn cael effaith benodol ar grwpiau gwarchodedig. Hyd yn oed os gallai’r effaith ar grwpiau gwarchodedig fod yn berthnasol i’r cwestiwn a yw cyfradd ddeuol neu gyfraddau lluosog yn fwy priodol nag un gyfradd. Dylid pwyso a mesur hyn yn erbyn manteision un gyfradd mewn adolygiadau yn y dyfodol.

22. Bydd gan lawer o hawlwyr sydd wedi’u hanafu’n ddifrifol anableddau corfforol a meddyliol o ganlyniad i’r anaf. Felly, mae pobl ag anableddau yn debygol o fod â chynrychiolaeth uwch yn y boblogaeth hawlwyr nag yn y boblogaeth gyffredinol. Ymysg y rhai sydd â’r anafiadau tymor hir mwyaf difrifol, ac sy’n cael y dyfarniadau mwyaf, mae cyfran y plant ifanc iawn sydd wedi’u hanafu ar enedigaeth a’r dynion ifanc sydd wedi’u hanafu mewn damweiniau ar y ffordd yn debygol o fod yn uwch na chyfran y babanod a’r dynion ifanc yn y boblogaeth gyffredinol.

23. Felly, mae'r fethodoleg a ddewisir i osod y gyfradd yn debygol o effeithio mwy ar hawlwyr sydd â nodweddion gwarchodedig anabledd (anafiadau iechyd corfforol a seicolegol), oedran (iau) a rhyw (dynion) nag ar eraill heb y nodweddion gwarchodedig hyn.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn y Cais hwn am Dystiolaeth:

**Cwestiwn 1: Rhowch dystiolaeth yn ymwneud â nifer yr hawliadau wedi'u rhannu yn ôl gwerth a hyd y dyfarniadau (Mae hyd yn golygu'r cyfnod y dyfarnwyd iawndal amdano yn yr atodlen iawndal ac felly'r cyfnod o amser y bydd hawlydd yn buddsoddi ei ddyfarniad. Mae'n well rhannu hyn yn gyfnodau o 10, 20, 30, 40, 50, 60, 70, 80+ mlynedd).**

**Cwestiwn 2: Mewn perthynas â'r dystiolaeth rydych chi wedi darparu ar gyfer Cwestiwn 1 uchod, rhowch fanylion y rhaniad rhwng:**

**a) Y gwahanol benawdau colledion h.y. gwerth gwahanol elfennau yn atodlen iawndal yr hawlydd megis rheoli gofal a chostau gofal (a sut mae'r rhain yn newid dros amser);**

**b) Siâp y penawdau colledion hyn cyn caniatáu ar gyfer codiadau chwyddiant h.y. gwastad, cynyddu neu leihau; ac**

**c) Y cyfnod y dyfernir y penawdau colledion hyn ar ei gyfer h.y. am oes neu am gyfnod penodol.**

**Cwestiwn 3: Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd yn 2018/2019, roedd cyngor Actiwari'r Llywodraeth i'r Arglwydd Ganghellor yn rhagdybio bod yr hawlydd cynrychiadol yn buddsoddi dros gyfnod o 43 mlynedd.**

**A yw 43 mlynedd yn dal yn rhagdybiaeth addas (eglurwch y rhesymeg a'r dystiolaeth ar gyfer eich ymateb)?**

**Cwestiwn 4: A oes unrhyw garfannau o 'ymgeiswyr cynrychiadol eraill' sydd, yn eich barn chi, â nodweddion sy'n wahanol iawn i'r hawlydd cynrychiadol a ddiffinnir uchod, ac y dylid eu hystyried ar wahân felly wrth fodelu canlyniadau hawlwyr?**

**Diffiniwch nodweddion y carfan(au) hyn.**

**Cwestiwn 5: Lle bo ar gael, darparwch dystiolaeth neu ddata ar brofiad marwolaethau gwirioneddol o'i gymharu â disgwyliad oes hawlwyr pan roddir dyfarniadau.**

**Cwestiwn 6: Rhowch dystiolaeth o'r cyfraddau chwyddiant sy'n berthnasol i iawndal yr hawlydd yn gyffredinol ac wedi'u rhannu yn ôl gwahanol benawdau colledion (gan gynnwys unrhyw ragamcanion o iawndal chwyddiant a gynhyrchir at ddibenion eraill – fel cadw wrth gefn mewn cwmni yswiriant).**

**Cwestiwn 7: Rhowch dystiolaeth p'un a yw'r cyfraddau chwyddiant hyn yn gysylltiedig â mesurau chwyddiant diffiniedig fel RPI, CPI, CPIH, AWE, ASHE 6115 (neu arall); a beth yw'r rhesymau dros gysylltiadau o'r fath.**

**Cwestiwn 8: A yw sefyllfa 2019 bod iawndal yr hawlydd cynrychiadol yn cael ei chwyddo ar gyfradd CPI+1% (fel y dangosir ym mharagraff 28 uchod) ar gyfartaledd yn dal yn rhagdybiaeth addas ac, os nad yw, sut byddech chi'n ei newid (rhowch dystiolaeth/resymau dros eich ymateb)?**

**Cwestiwn 9: Pa ddosbarthiadau asedau y dylid eu cynnwys mewn portffolio "risg isel", ac a oes unrhyw ddosbarthiadau asedau nad ydynt ar gael yn gyffredinol a/neu'n addas ar gyfer hawlwyr anafiadau personol (rhowch resymau a/neu dystiolaeth i gefnogi eich barn)?**

**Cwestiwn 10: Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych ynghylch sut y mae hawlwyr risg isel sy'n derbyn dyfarndaliadau iawndal cyfandaliad yn cael eu cynghori i fuddsoddi a hefyd yn buddsoddi dros gyfnod eu dyfarniad (yn cynnwys newidiadau dros y cyfnod hwn).**

**Dylid darparu gwybodaeth am y canlynol:**

**a) Y rhaniad rhwng twf a chyfatebu asedau, yn ogystal â dosbarthiadau asedau penodol;**

**b) Pa mor gyffredin yw dulliau buddsoddi gweithredol, goddefol neu led-oddefol a'u heffaith ganlyniadol;**

**c) Ystyried risg hylifedd[1] a/neu ba mor gyffredin yw dulliau cyfateb llif arian â'r nod o ddiwallu yn ôl anghenion incwm yr hawlydd wrth iddynt ddod yn ddyledus e.e. drwy brynu 'bondiau cyfatebol' neu flwydd-daliadau i ddarparu ffrwd incwm fwy hysbys; a**

[1] Risg hylifedd – ystyried pa mor hawdd yw gwerthu ased am bris addas.

**d) Pa mor gyffredin yw strategaethau rheoli risg wrth i orwel buddsoddi hawlydd newid.**

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n credu bod y strategaeth fuddsoddi y rhagdybiwyd y byddai'r hawlydd cynrychiadol yn ei mabwysiadu yn nadansoddiad Actwari'r Llywodraeth 2019 (fel y disgrifir ym mharagraffau 33 i 36 a Thabl 1 uchod) yn dal yn briodol? Os nad yw, sut fyddech chi'n ei newid er mwyn cael barn gyfredol am yr hawlydd cynrychiadol neu hawlwyr cynrychiadol eraill?**

**Cwestiwn 12: I ba raddau y mae newidiadau diweddar mewn amodau economaidd (e.e. cyfraddau llog a chwyddiant uchel) wedi effeithio ar y ffordd y mae hawlwyr yn cael eu cynghori i fuddsoddi, ac yn buddsoddi?**

**Cwestiwn 13: Rhowch dystiolaeth sy'n dangos sut mae'r amgylchiadau a/neu'r nodweddion canlynol yn effeithio ar ymddygiad buddsoddi hawlwyr yn ymarferol:**

**a) Maint neu hyd y dyfarniad (yn cynnwys effaith unrhyw ryngweithio rhwng y ddau newidyn hyn);**

**b) Incwm arall ar gael, yn cynnwys Gorchmynion Taliad Cyfnodol;**

**c) Bodolaeth a gofynion dibynyddion ariannol (e.e. priod, partner sifil, plant); a**

**d) Ffactorau neu nodweddion eraill sy'n berthnasol yn eich barn chi.**

**Cwestiwn 14: Sut mae newidiadau hanesyddol i'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol sy'n effeithio ar faint y dyfarniad wedi effeithio ar sut mae hawlwyr risg isel wedi cael eu cynghori neu wedi buddsoddi eu dyfarniad mewn gwirionedd (rhowch dystiolaeth a/neu resymau i gefnogi eich ateb)?**

**Cwestiwn 15: I ba raddau mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn llywio'r cyngor a gaiff hawlwyr a'u dulliau buddsoddi (rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn)?**

**Cwestiwn 16: Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd ar gael am y math a'r lefel o dreuliau y mae hawlwyr yn eu hwynebu, gan ragdybio bod portffolio buddsoddi risg isel yn cael ei fabwysiadu. Efallai y bydd ymatebwyr yn dymuno dilyn y grwpiau ym mharagraff 39 uchod a dylent ychwanegu unrhyw dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â buddsoddi y maent yn credu sy'n berthnasol.**

**Lle bo'n bosibl, dylai'r atebion dynnu sylw at unrhyw wahaniaethau mewn treuliau oherwydd:**

**a) Maint dyfarniad yr hawlydd;**

**b) Mabwysiadu dull buddsoddi goddefol neu weithredol; ac**

**c) Gorwel amser yr hawlydd (a sut mae hyn yn newid dros amser).**

**Cwestiwn 17: A yw'r grwpiau treuliau, y gwerthoedd a'r dull gweithredu a ragdybiwyd yn nadansoddiad 2019, fel y nodir yn Nhabl 2 uchod, yn dal yn addas ar gyfer yr hawlydd cynrychiadol (neu hawlwyr cynrychiadol eraill)?**

**Os nad ydynt, beth sy'n briodol yn eich barn chi. Rhowch dystiolaeth a/neu resymau i gefnogi eich ateb.**

**Cwestiwn 18: Pa fathau o drethi a chyfraddau treth sydd fel arfer yn berthnasol i hawlwyr ar eu henillion buddsoddi, a sut mae dosbarthiad y rhain yn amrywio yn ôl maint, hyd y dyfarniad a'r gorwel amser sy'n weddill i hawlwyr? Ystyriwch farn bresennol am yr hawlydd cynrychiadol neu hawlwyr cynrychiadol eraill.**

**Cwestiwn 19: Sut gallai eich ateb i Gwestiwn 18 newid pe bai gan hawlydd incwm trethadwy blynyddol arall o swm sydd o leiaf yn bodloni'r trothwy ar gyfer treth incwm personol, neu lefel resymol arall o incwm trethadwy. Cefnogwch hyn gydag unrhyw dystiolaeth neu ddata ynghylch pa incwm trethadwy arall sydd gan hawlwyr fel arfer.**

**Cwestiwn 20: Ydych chi'n credu bod didyniad 2019 ar gyfer trethiant o rhwng 0.0% a 0.5% y flwyddyn (yn seiliedig ar werth y dyfarniad cychwynnol) yn dal yn addas o ran yr hawlydd cynrychiadol neu hawlwyr cynrychiadol eraill (rhowch dystiolaeth a/neu resymau i gefnogi eich safbwynt).**

**Cwestiwn 21: Yn 2019, defnyddiwyd cyfanswm didyniad ar gyfer treth a threuliau rheoli buddsoddiadau dros gyfnod y dyfarniad o 0.75 y cant (yn deillio o ystod o 0%-0.5% yn seiliedig ar werth y dyfarniad cychwynnol ar gyfer treth a 0.6%-1.2% ar gyfer treuliau rheoli buddsoddiadau.**

**Ydych chi'n credu bod cyfanswm y didyniad hwn a sut mae ei elfennau'n cael eu cyfuno yn dal yn briodol (rhowch dystiolaeth a/neu resymau i gefnogi eich ateb)?**

**Cwestiwn 22: Faint o gymhlethdod neu anhawster ychwanegol fyddai gweithredu dull cyfradd ddeuol yn ei ychwanegu at y broses ymgyfreitha (rhowch dystiolaeth i fesur hyn naill ai yn ôl amser hyd at setliad, costau cyfreithiol ychwanegol a/neu unrhyw ffactorau perthnasol eraill)?**

**Cwestiwn 23: Pe bai mecanwaith cyfradd ddeuol yn cael ei roi ar waith, byddai enillion gwahanol ar asedau yn cael eu rhagdybio ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.**

**O dan y mecanwaith hwn, pa newidiadau i nodweddion canlynol yr hawlydd cynrychiadol (neu hawlwyr cynrychiadol eraill) fyddai'n berthnasol:**

**a) Cyfnod buddsoddi;**

**b) Chwyddiant iawndal;**

**c) Portffolio buddsoddi; a**

**d) Rhagdybiaethau Treth a Threuliau.**

**Cwestiwn 24: Pe bai cyfradd ddisgownt fesul pennawd colledion yn cael ei gweithredu, byddai rhagdybiaethau gwahanol o ran chwyddiant iawndal yn cael eu rhagdybio ar gyfer gwahanol benawdau colledion. O dan y mecanwaith hwn, pa newidiadau i nodweddion canlynol yr hawlydd cynrychiadol (neu hawlwyr cynrychiadol eraill) fyddai'n berthnasol:**

**a) Cyfnod buddsoddi (o dan y fethodoleg un gyfradd, rhagdybiwyd 43 mlynedd yn flaenorol);**

**b) Portffolio buddsoddi (o dan y fethodoleg un gyfradd, rhagdybiwyd dyraniad 57.5% i asedau cyfatebol a dyraniad 42.5% i asedau twf yn flaenorol. Gweler Tabl 1 am fanylion llawn); ac**

**c) Rhagdybiaethau Treth a Threuliau (o dan y fethodoleg un gyfradd, ystod o 0%-0.5% yn seiliedig ar werth y dyfarniad cychwynnol o ran treth a 0.6%-1.2% o ran treuliau, gyda chyfanswm modelu o 0.75% wedi'i ragdybio'n flaenorol).**

**Cwestiwn 25: Faint o gymhlethdod neu anhawster ychwanegol fyddai'r dull hwn yn ei ychwanegu at y broses ymgyfreitha, ac a fyddai hyn yn fwy/llai/tua'r un fath â phetai cyfradd ddeuol yn ôl cyfnod yn cael ei gweithredu?**

**Rhowch dystiolaeth i fesur hyn naill ai yn ôl amser hyd at setliad, costau cyfreithiol ychwanegol a/neu unrhyw ffactorau perthnasol eraill.**

**Cwestiwn 26: Pe bai cyfradd ddisgownt yn ôl penawdau colledion yn cael ei gweithredu, a ydych chi'n credu bod y cysyniad o fodelu un hawlydd cynrychiadol yn dal yn briodol neu a yw modelu hawlydd cynrychiadol ar gyfer pob pennawd colled yn well?**

**Cwestiwn 27: Rhowch unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd gennych chi neu eich sefydliad ar weithrediad ymarferol model cyfradd penawdau colledion o'r fath.**

**Cwestiwn 28:  Darparwch dystiolaeth a/neu ddata i gefnogi pa benawdau colledion y dylid eu nodi ar wahân mewn model o'r fath.**

**Cwestiwn 29: Pa mor rhwydd y mae Gorchmynion Taliad Cyfnodol ar gael i hawlwyr yn ymarferol a sut mae hyn yn amrywio yn ôl grwpiau o hawlwyr (byddai data ychwanegol ar grwpiau lle mae'n llai tebygol y bydd Gorchymyn Taliad Cyfnodol ar gael yn rhwydd yn ddefnyddiol)?**

**Cwestiwn 30: Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd o gyfandaliadau yn hytrach na Gorchmynion Taliad Cyfnodol. Gallai hyn gynnwys dewisiadau ac ymddygiad un neu fwy o'r partïon sy'n ymwneud â'r broses setlo a strategaethau ymgyfreitha cysylltiedig.**

**Cwestiwn 31: Rhowch unrhyw dystiolaeth o sut gallai gosod y gyfradd ddisgownt effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.**

# Atodiad 1: Rhestr o Ymgyngoreion

AA

Admiral

Adroit Financial Planning

Advantage Insurance Company

Ageas Insurance Limited

AIG

Allianz

Aon

Arch Re

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Cymdeithas y Sefydliadau Cymorth i Ddefnyddwyr

Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Aviva

Axa Insurance

Cyngor y Bar

Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain

Browne Jacobson LLP

Capsticks LLP

Carpenters Group

CFG law

Chase Devere

CiLEX

Cloisters

Clyde a Co

DAC Beachcroft

Deloitte

Siambrau Deka

DWF

EY

esure

Everest Re

Fletchers

Fforwm y Cyfreithwyr Anafiadau Cymhleth

Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant

Frenkel Topping

Gibraltar Insurance Association (GIA)

Hastings Direct

Hill Dickinson

Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid

Cymdeithas Gwarantu Ryngwladol

Irwin Mitchell

Irwin Mitchell Asset Management Limited

JMW Solicitors

Keoghs

Cyngor ar Bopeth

Cymdeithas y Gyfraith

LV=

Yr Undeb Amddiffyn Meddygol

Y Gymdeithas Diogelu Meddygol

Minster Law

Cymdeithas y Cyfreithwyr Damweiniau Modur

Swyddfa'r Yswirwyr Moduro

MunichRe

NFU Mutual

NHS Resolution

Nicholls Brimble Bhol

Personal Financial Planning

Cymdeithas y Bar ar gyfer Anafiadau Personol

Cymdeithas Rheoli Buddsoddiadau Personol a Chynghori Ariannol

Pollock and Galbraith

PWC

Sabre Insurance Group

Sergeants Chambers

Slater and Gordon

Swiss Re

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Clinigol

Thompsons Solicitors

WTW

Which?

Weightmans

Sabre Insurance Group

Kennedys

Zurich

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r Cais hwn am Dystiolaeth (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, a rhowch ddisgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

## Manylion cyswllt y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Anfonwch eich ymateb erbyn 09 Ebrill 2024 at:

**Civil Justice and Law Policy**
Ministry of Justice
Post point 5.23
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3157

E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y Cais am Dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r Cais hwn am Dystiolaeth ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at:

**Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk**

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r Cais hwn am Dystiolaeth mewn tua thri mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn:

https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r Cais hwn am Dystiolaeth, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG chi, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Asesiad Effaith

Nid oes Asesiad Effaith wedi'i baratoi ar gyfer y Cais hwn am Dystiolaeth gan mai canolbwyntio ar archwilio'r opsiwn o gael cyfradd ddeuol a wneir ar hyn o bryd, yn hytrach nag ymgynghori ar set o gynigion ar gyfer cyflwyno un. Bydd ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi Asesiad Effaith yn y dyfodol.

# Y Gymraeg

## Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o’r crynodeb gweithredol a’r set cwestiynau sydd wedi’u cynnwys yn y Cais am Dystiolaeth. Nid yw cynnwys y ddogfen hon yn effeithio ar wasanaethau’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru.

# Egwyddorion Cais am Dystiolaeth

Mae’r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Cais am Dystiolaeth Swyddfa’r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Call for Evidence_Principles__1_.pdf

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i’r Is-adran Polisi Cyfiawnder Sifil a’r Gyfraith yn Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk